***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2880 (Cy.250)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *2 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *19 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 56(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Gofal Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) O ran y Gorchymyn hwn —

(a) ei enw yw Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004;

(b) mae'n dod i rym ar 19 Tachwedd 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "gwaith" ("*work*") yw gwaith o unrhyw fath a grybwyllir yn adran 55(2)(b) i (d) o'r Ddeddf.

**Pennu gweithwyr gofal cymdeithasol**

**2.**—(1) Mae'r gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) isod wedi'u pennu at ddibenion adran 56(1)(b) o'r Ddeddf (dyletswydd y Cyngor i gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol a bennir drwy orchymyn)(**3**).

(2) Mae'r disgrifiad o weithwyr gofal cymdeithasol yn cyfeirio at y personau hynny —

(**1**) 2000 p. 14. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r "appropriate Minister", sy'n golygu'r "Assembly", mewn perthynas â Chymru: adran 121(1) o'r Ddeddf. Ystyr "Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: adran 5(1)(b) o'r Ddeddf.

(**2**) *Gweler* adran 56(4) o'r Ddeddf ynglyn â'r gofyniad i ymgynghori.

(**3**) Dyma'r ail grwp o weithwyr gofal cymdeithasol i gael eu pennu at ddibenion cofrestru gyda'r Cyngor o dan adran 56(1)(b). Gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant a bennwyd gan O.S. 2004/709 (Cy.76) oedd y grŵ p cyntaf.

(a) sy'n dod o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau yn adran 55(2)(b) i (d) o'r Ddeddf(**4**);

(b) sydd fel arfer yn cyflawni rhyw waith yng Nghymru neu'n disgwyl gwneud hynny; ac

(c) y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rhinwedd y gwaith hwnnw, ddyroddi tystysgrif cofnod troseddol ar eu cyfer o dan adran 113(1) neu 115(1) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**5**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**))

*D. Elis-Thomas*

2 Tachwedd 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) Mae person yn dod o dan adran 55(2)(b) os yw'n cael ei gyflogi mewn cartref plant, cartref gofal neu ganolfan breswyl i deuluoedd neu at ddibenion asiantaeth gofal cartref, asiantaeth faethu neu asiantaeth fabwysiadu wirfoddol. Mae person yn dod o dan adran 55(2)(c) os yw'n rheoli sefydliad, neu asiantaeth, o ddisgrifiad a grybwyllir yn adran 55(2)(b). Mae person yn dod o dan adran 55(2)(d) os yw wedi'i gyflenwi gan asiantaeth gofal cartref i ddarparu gofal personol yn eu cartrefi eu hunain i bersonau nad ydynt yn gallu ei ddarparu iddynt eu hunain heb gymorth oherwydd eu hafiechyd, eu llesgedd neu eu hanabledd.

(**5**) 1997 p. 50.

(**6**) 1998 p. 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 56(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gofal Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy orchymyn.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu disgrifiad o weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion adran 56(1).